

Catchphrase 2004: Ysbyty Brynaber - Week 50

Key Language

Galla i/Galli di etc.
Y llall/y lleill
Yli/Sbia/Disghwl

Main Grammatical Points

Gallu – to be able to or in the sentence rwy'n gallu – I can
Let's look at the short forms of the verb:

Galla i	I can	Alla i ddim	I can't	Alla i?	Can I?
Galli di	You can	Alli di ddim	You can't	Alli di?	Can you?
Gall e/o	He can	All e/o ddim	He can't	All e/o?	Can he?
Gall hi	She can	All hi ddim	She can't	All hi?	Can she?
Gallwn ni	We can	Allwn ni ddim	We can't	Allwn ni?	Can we?
Gallwch chi	You can	Allwch chi ddim	You can't	Allwch chi?	Can you?
Gallan nhw	They can	Allan nhw ddim	they can't	Allan nhw?	Can they?

Note the subtle difference between the 'I can' forms and the 'I could forms':

Gallwn i	I could	Allwn iddim	I couldn't	Allwn i?	Could I?
Gallet ti	You could	Allet ti ddim	You couldn't	Allet ti?	Could you?
Gallai e/o	He could	Allai e/o ddim	He couldn't	Allai e/o?	Could he?
Gallai hi	She could	Allai hi ddim	She couldn't	All hi?	Could she?
Gallen ni	We could	Allen ni ddim	We couldn't	Allen ni?	Could we?
Gallech chi	You could	Allech chi ddim	You couldn't	Allech chi?	Could you?
Gallen nhw	They could	Allen nhw ddim	They couldn't	Allen nhw?	Could they?

Look out for these forms and try and distinguish between them.

Y llall/Y lleill

Agnes says Tynn y llall wnei di
Pull the other one will you?

Y llall the other one
Y lleill the others or the other ones
Edrycha ar y lleill Look at the other ones
Prynwch y lleill Buy the others

Yli/Sbia/Disghwl

A small word that is often used in north Wales is Yli which means – look.

Brian says: Yli does neb yn teimlo'n fwy o ffwl na fi.
Look, no one feels more of a fool than me

Another form that you'll hear in north Wales is Sbia

Sbia ar y cwch yna.
Look at that boat.

The common form for this expression is Edrycha or Drycha

Drycha, dw i'n anhapus iawn
Look I'm very unhappy

In south Wales you might also come across the form disghwl

Dishgwl 'ma, dw i ddim yn mynd i ddweud wrthot ti eto.
Look here, I'm not going to tell you again.

And now some more useful words and expressions:

Gwres	temperature
Doniol	funny
Disgyn ar fai	to take the blame
Difalio	thoughtless
Cawod	a shower
Tynn y llall wnei di	pull the other one will you
Y peth cyntaf	the first thing
Addo	to promise
Rhosynnod	roses
Dychmygu	to imagine
Unioni cam	to right a wrong
Ers sbel fach	for a little while
Echdoe	two days ago
Awgrymu	to suggest
Cyfle	a chance
Garw	rough
Awyddus	keen
Pengliniau	knees
Sôn	to mention
Cynghori	to advise
Anhygoel	incredible
Cwyn	complaint
Bod yn ymwybodol	to be aware
Cyflwr ymenyddol	mental state
Triniaeth	treatment
Dadlau achos	to plead a case
Ymladd	to fight

Ysbyty Brynaber: Episode 148

It's bedtime at the Rees household. While Agnes is having a shower Wendy telephones Brian. She is distraught - why? Brian has forgotten that it's her birthday.

The next morning Brian tries to make things up with Wendy by calling at the flat and presenting her with a bunch of roses. She unceremoniously cuts them up in front of him.

There is an almighty row and Wendy hurls a flower pot at her Brian as he is about to leave the flat.

Geirfa

Gwres	temperature
Doniol	funny
Disgyn ar fai	to take the blame
Difalio	thoughtless
Cawod	a shower
Tynn y llall wnei di	pull the other one will you
Y peth cyntaf	the first thing
Addo	to promise
Rhosynnod	roses
Dychmygu	to imagine
Unioni cam	to right a wrong

Golygfa 1

Brian - Ydy Beca'n well?

Agnes - Nac ydy. Mae mwy o wres gan Beca nag sydd gan Rhodri. Ond dw i'n credu aiff hi i gysgu nawr...

Brian - Hei, pam wnei di ddim ffonio doctor? ... Sori.

Agnes - Byddwn i'n meddwl hynny hefyd. Doedd hynny jyst ddim yn ddoniol, Brian...

Brian - Dw i wedi dweud fy mod i'n sori.

Sori – iawn?

Agnes - Pwy oedd lan hanner y nos neithwr yn newid dillad y gwely?

Brian - Agnes, dw i'n disgyn ar fy mai.

Agnes - Digon hawdd i ti ddweud rhywbeth fel'na. Mor ddifeddwl. Mor ddifalio.

Brian - Do'n i ddim yn bod yn ddifalio.

Agnes - Ddim yn ddifalio? Tynn y llall wnei di? Wyt ti wedi gadel digon o ddwr ar ôl yn y gawod 'na i fi? ... Yffach! Mae hi bron yn un ar ddeg o'r gloch y nos...

Brian - Cer di am dy gawod...Mi ateba i'r ffôn. Jac Whelan fydd o, siwr o fod...

Helo...?

Wendy - Brian...?

Brian - Beth wyt ti isio? Wendy, beth sy'n bod?

Wendy - You forgot.

Brian - Sori? Wyt ti mewn poen? Wendy? Os na nei di ddeud wrtha i be sy'n bod alla i ddim helpu...Ydy hyn i 'neud hefo'r babi?

Wendy - Nac ydy! It's to do with me!

Brian - Wendy, cariad....Wendy...

Wendy - You still don't remember, do you?!

Brian - Beth? Cofio beth?

Wendy - Today was my birthday you selfish creep!

Brian - Wendy, Wendy! Gwranda, gwranda! Gwranda rwan! Ti'n gwrando?

Wendy - And you forgot! Sut allet ti?

Brian - Mi wna i'n iawn i ti, Wendy, dw i'n addo. Dw i'n addo y gwna i'n iawn iti! Ond mae Agnes ar fin dod allan o'r ystafell molchi ac mae'n rhaid i ti fynd off y ffôn!

Wendy - I'm so lonely, Brian. Please dere ato i....

Brian - Gwna i dy weld ti fory. Fory. Y peth cyntaf bore fory. Dw i'n addo. Dw i wir yn addo. Iawn?

Agnes - A beth oedd e, Whelan isie amser yma o'r nos?

Brian - Dim ond dweud y bydd dod yma dydd lau eto.
Agnes - Dydd lau eto? Pam?
Brian - Mae gynnon ni lawer o fusnes i'w drafod hefo'n gilydd...

Golygfa 2

Brian - Heia!
Wendy - Wel, wel.
Brian - I ti.
Wendy - Bit late for flowers now – don't you think?
Brian - Damage limitation? Ga i ddod i mewn?
Wendy - Iawn. Dere...
Brian - Dw i'n gweld mai ddim rhosynnod ydy dy hoff flodau di. Wendy. Wendy, 'nghariad i. Yli, does neb yn teimlo yn fwy o ffwl na fi...
Wendy – Wyt ti'n gwybod beth ddwedodd Mam wrtho i ddoe?
Brian - Na. Ond alla i ddychmygu...
Wendy - 'Wendy, love, if a man can't even remember your birthday – you're better off without him.'
Dw i'n well off hebddot ti, Brei.
Brian - Be fedra i wneud i unioni'r cam?
Wendy - Cerdded yn syth mas trwy'r drws 'na a paid byth â dod yn ôl.
Brian - Wendy...Edrycha rwan...
Wendy - Os wyt ti'n ffael cofio fy mhen-blwydd i Brian? Beth ydw i i ti? I'll tell you what: nothing. Your Agnes, your kids, your mechanics, your Jac Whelans, your pathetic little cars, your precious bloody boat! Dyna beth sydd wir yn bwysig i ti.
Brian - Pam na wnawn ni siarad rywbryd eto, pan wyt ti wedi tawelu ychydig bach?

Ysbyty Brynaber: Episode 149

Arwyn is in the Yacht Club slowly getting drunk – He's on the phone to his mother. Wendy arrives looking for Brian.

Brian is in the garage and on the phone to Jac Whelan. They discuss going out on the boat.

Arwyn arrives at the hospital in a drunken state. He tells Agnes that he has received a formal complaint of negligence from the solicitors.

Geirfa

Ers sbel fach	for a little while
Echdoe	two days ago
Awgrymu	to suggest
Cyfle	a chance
Garw	rough
Awyddus	keen
Pengliniau	knees

Golygfa 1

Arwyn -Na, dw i ddim yn yr ysbyty...Na, dw i yn yr Yacht Club i lawr yn y Marina...Chi'n gwybod, y lle des i â chi am gino dau ddydd Sul nôl...Nac ydw, dw i ddim yn hwylio ddim mwy, mam...Smo chi'n cofio? Ydw i wedi gwerthu'r Mary Rose?Benny, can you give me another G + T, please...? ...Nage, ddim siarad â chi oeddwn i, Mam...Siarad â'r barman o'n i...Jyst ffonio i weld sut ydych chi ydw i...Iawn...Da iawn...Dw i'n falch eich bod chi'n iawn...Ydw, ydw, dw i'n iawn hefyd...Sa i'n gwybod, Mam...Sa i wedi gweld Jenny ers sbel fach nawr...Nac ydw...Beth bynnag, well i fi fynd...Ta ta, Mam...Thank you, Benny – that's lovely.

Arwyn - Syrpreis, syrpreis. Miss Keating. Sut ydych chi?

Wendy - Dwyt ti heb weld Brian Rees heddiw, wyt ti?

Arwyn - Brian Rees? Nac ydw. Ddim heddiw. Ond weles i – pryd oedd hi hefyd? – dw i'n ffael cofio nawr. Ddoe efallai? Nage. Ddim ddoe, echdoe. Ie, efallai taw echdoe weles i fe.

Wendy – Ti'n drunk?

Arwyn - Begio'ch pardwn?

Wendy - Ti yn. On'd wyt ti? Ti'n sloshed....

Arwyn - Peidiwch chi â mentro awgrymu'r fath beth, fy merch i...

Wendy - A dim ond ten past twelve yw hi. A cyn iti gynnig 'drink' i fi. Yr ateb yw 'Dim diolch.'

Arwyn - Faswn i ddim yn meiddio cynnig alcohol i ferch ifanc feichiog.

Wendy - And if I was you I'd cut down...Ti wedi gweld dy drwyn di? All those purple veins, like some spiders web...

Arwyn - Mawredd y byd! Mae ganddoch chi ffordd anffodus iawn o siarad on'd oes?

Golygfa 2

Brian - Helo?

Jac - Brian?

Brian - Jac – ble rwyd ti rwan?

Jac - Salford. Change of plans heddiw, mae gen i ofn, mêt.

Brian - Beth? Dwyt ti ddim yn dod yma?

Jac - Alla i ddim...

Brian - Jac? Helo? Jac? Wyt ti yna?

Jac - Brian?

Brian - Mi gawson ni ein torri....

Jac - Fel gwnes i ddweud: dw i'n methu dod i Gymru heddiw...Mae Duncan wedi galw heibio...Doeddwn i ddim yn ei ddisgwyl o...Anyway, it's a long story mate and I won't bore you with the details...Ond mae'n rhaid i fi siarad hefo Duncan heddiw am rywbeth pwysig iawn...

Brian - Wel, pryd gawn ni gyfle i fynd allan ar y môr 'ta?

Jac - Piti inni fethu wythnos diwetha pan oeddwn i hefo ti.

Brian - Roedd yr wythnos diwetha yn amhosib. Roedd y tywydd yn rhy arw...

Jac - Rhy beth, mêt?

Brian - Yn rhy arw. Roedd y môr yn rhy 'rough' yr wythnos diwetha. Ond dw i'n awyddus iawn i ti fynd allan ar y cwch.

Jac - Ein cwch ni.

Brian - Ia. 50/50. Ein cwch ni. Be am fory? Maen nhw'n addo tywydd gweddol am fory.

Jac - Don't know. Don't hold me to any promises. Ffonia i ti heno. O.K?

Golygfa 3

Arwyn - Drat!

Agnes - Arwyn? Beth wyt ti'n wneud ar dy bengliniau fan hyn?

Arwyn - Fe giciais i'r bin yma drosodd.

Agnes - Gad i fi dy helpu di. Ti wedi bod yn yfed...?

Arwyn - Yfed fyddet tithau hefyd...Yfed dy hunan yn dwll.

Agnes - Dere. Cyn i rywun dy weld ti...

Arwyn - Hei! Agnes, beth wyt ti'n wneud?

Agnes - Dere draw i'n swyddfa i...

Arwyn - Paid, nawr! Paid!

Agnes - Arwyn, plis. Petai rhywun yn dy weld di ac yn dy riportio di...

Arwyn - Mae rhywun wedi gwneud hynny'n barod.

Agnes - Beth wyt ti'n feddwl?

Arwyn - Ti'n cofio beth ddweddes i wrthot ti yr wythnos diwetha?

Agnes - 'Bytu merch Eirwen Davies?

Arwyn - Ie....Wel...Ges i lythyr y bore 'ma...Mae'r teulu yn benderfynol o fynd a fi i'r llys...Diofalwch proffesiynol...'Professional negligence'...

Agnes - A'r bore 'ma gest ti'r llythyr?

Arwyn - Y bore 'ma.

Agnes - A beth ti wedi wneud 'bytu fe?

Arwyn - Meddwi! Dyna beth dw i wedi wneud! Meddwi yn dwll!

Agnes - Arwyn - dere! I mewn i fy swyddfa i yr eiliad yma!

Ysbyty Brynaber: Episode 150

Wendy calls at the garage to see Brian. The atmosphere is somewhat icy! Jac Whelan calls for Brian to go down to the marina and take the boat out to sea. Wendy tells Brian that he's mad to venture out in such adverse weather conditions.

Arwyn assures Agnes that he will fight the accusation against him to the bitter end.

Geirfa

Sôn	to mention
Cynghori	to advise
Anhygoel	incredible
Cwyn	complaint
Bod yn ymwybodol	to be aware
Cyflwr ymenyddol	mental state
Triniaeth	treatment
Dadlau achos	to plead a case
Ymladd	to fight

Golygfa 1

Brian - Wendy. Sut mae...? Rôn i yn y Yacht Club neithiwr ac mi ddwedodd Benny y barman wrtha i dy fod ti wedi bod yn holi amdana i amser cinio ddoe...Rwy'ti'n dawel iawn...Beth sy'n bod?

Wendy - Dim....

Brian - Wyt ti wedi bod yn yr anti-natal clinic bore 'ma?

Wendy - Ydw...

Brian - Iawn?

Wendy - O.K.'ish. Roedd y merched eraill oedd yno i gyd gyda'u partneriaid. Pawb ond fi ac un ferch arall...

Brian - Wyt ti ffansio mynd allan heno?

Wendy - Heno?

Brian - Ie.

Wendy - Pam heno?

Brian - Mae heno'n hawdd i mi achos bod Agnes yn gwybod bod Jac Whelan i lawr yma. A dydy hi ddim isio fo yn y ty. Mae'n well ganddi fy mod i'n mynd i fwya yn rhywle arall hefo fo.

Wendy - Dim hi yw'r unig un sydd ddim yn licio'r boi yna.

Brian - Ond fydd Jac ddim hefo ni. Dim ond ti a fi. Beth amdani?

Wendy - That's what you said when we went on that awful trip to Birmingham last year...But in the end we all ended up eating out together...Jac, ti a fi...

Brian - Ac ar y gair. Dyma fo...

Wendy - Ble?

Brian - Yn dwad drwy drws...

Jac - Howdy?

Brian - Jac. Ti'n cofio Wendy on'd wyt ti?

Jac - Sut alla i anghofio Wendy? Nice to meet you again.

Brian - Gest ti siwrnai hwylus o Birmingham?

Jac - Iawn.

Brian - Lot o draffig?

Jac - Not too bad.

Brian - Da iawn. Dydy'r ffyrdd ddim yn rhy ddrwg yr adeg yma o'r flwyddyn.

Jac - Nag ydyn. So...

Brian - So.

Jac - Wyt ti'n barod?

Brian - Os wyt ti.

Wendy - Ble rydych chi'n mynd?

Jac - I'r Marina.

Wendy - Pam?

Brian - Y fi sydd wedi sôn wrth Jac am y Mary Rose...

Jac - A dw i wastad wedi ffansio fy hun fel dipyn o young sailor boy...
Wendy - Beth? Dydydych chi ddim yn meddwl mynd mas ar y môr?
Brian - Wel...
Wendy - Don't be mad, Brian! Even experienced sailors stick to port in this weather.
Brian - Awn ni ddim yn rhy bell...
Wendy - Brian! Plis!

Golygfa 2

Agnes - A beth ddwedodd yr Adran Personnel wrthot ti?
Arwyn - Maen nhw wedi derbyn llythyr cyfreithiwr.
Agnes - A beth oedd eu hymateb nhw?
Arwyn - Maen nhw yn fy nghynghori fi i gael cyfreithiwr fy hunan...
Agnes - Ond mae'r peth yn hollol anhygoel!
Arwyn - Ydy, wy'n gwybod...
Agnes - Pwy yw'r bobol 'ma? Teulu y Davies? Beth yffach yw eu cwyn nhw?
Arwyn - Mae dau gyhuddiad.
Agnes - Beth yn hollol 'te?
Arwyn - Yn gyntaf, dylen i fod wedi bod yn ymwybodol o gyflwr ymenyddol Mrs Davies. Mae'n debyg ei bod hi wedi cael problemau yn y gorffennol...
Agnes - A beth yw'r ail gwyn?
Arwyn - Dylen i fod wedi cael caniatâd Mrs Eirwen Davies ei hunan cyn rhoi triniaeth 'anticoagulant' iddi.
Agnes - Dw i ddim yn gweld fod llawer o achos gyda nhw.
Arwyn - Ti ddim?
Agnes - Ti ddim?
Arwyn - Mae'n dibynnu...
Agnes - Ar beth?
Arwyn - Sut gyfreithiwr gân nhw i ddadlau eu hachos. Fe allen i golli.
Agnes - Ond os oes talu mas i fod, mae yswiriant gan yr ysbyty. Fyddai dim 'liability' arnat ti. Fyddet ti'n colli dim.
Arwyn - Dim ond fy enw da. Ond ti'n iawn. Mae'n rhaid i fi ymladd. Does dim dewis gyda fi.
Mae'n rhaid i fi wneud rhywbeth bytu fe. Ac wyt ti'n gwybod beth yw hynny?
Agnes - Beth?
Arwyn - Ei ymladd e! Wy'n mynd i ymladd teulu y Davies 'ma yr holl ffordd! Reit i'r pen! Ie! Reit i'r pen! Achos sa i'n euog o unrhyw ddiolfalwch proffesiynol. Sa i'n euog o unrhyw beth. Ag fe gân nhw a phawb arall weld hynny hefyd!

Synopsis

Brian has forgotten that it was Wendy's birthday – she was none too happy, and threw a pot of flowers at him.

Wendy - Os wyt ti'n ffael cofio mhen-blwydd i Brian beth ydw i iti? I'll tell you what: nothing! Your Agnes, your kids, your mechanics, your Jac Whelan, your pathetic little cars and your precious bloody boat. Dyna beth sy'n bwysig i ti.

Meanwhile Arwyn Saunders has been drinking more and more to try and forget his problems. He arrived at the hospital in a drunken state.

He was told that the hospital had received a formal complaint about his professional conduct. He has been advised to contact his solicitor.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'the others'?
 - a) y llall
 - b) **y lleill**
 - c) y rhai lleill
2. How would you say 'She can go' in Welsh?
 - a) Byddai hi'n gallu mynd
 - b) Roedd hi'n gallu mynd
 - c) **Gall hi fynd**
3. How would you say 'I haven't seen them for a little while' in Welsh?
 - a) Dw i ddim wedi eu gweld nhw ers ddoe
 - b) Dw i ddim wedi eu gweld nhw ers echdoe
 - c) **Dw i ddim wedi eu gweld nhw ers sbel fach**
4. What is the Welsh phrase for 'to take the blame'?
 - a) Arno fe mae'r bai
 - b) **Syrthio ar fy mai**
 - c) dy fai di ydy e
5. How would you say 'It's incredible' in Welsh?
 - a) **Mae'n anhygoel**
 - b) Mae'n anodd credu
 - c) Mae'n amhosibl credu
6. What word is used in north Wales for 'look'?
 - a) Dishgwl
 - b) **Yli**
 - c) Edrychodd